



Drwy e-bost

21 Hydref 2021

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

### **Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Cynnig Ehangach o Gymwysterau**

Diben y llythyr hwn yw cynnig cyfle gwerthfawr i chi rannu eich barn wrth i ni ddechrau meddwl am sut rydym yn ail-lunio'r dirwedd cymwysterau 14-16 yng Nghymru.

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn nodi cyfnod sylweddol o newid ar gyfer addysg. Wrth wraidd y newidiadau hyn mae cwricwlwm newydd ac arloesol i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed yng Nghymru. Drwy ein rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol, rydym yn edrych ar y ffordd orau i gymwysterau yn y dyfodol gefnogi'r cwricwlwm newydd a helpu i wireddu ei uchelgais.

Yn dilyn ein hymgyngoriad *Cymwys ar gyfer y Dyfodol* cyntaf, gwnaethom gyhoeddi ein [hadroddiad penderfyniadau](#) ym mis Mehefin 2019. Gwnaethom gytuno ar gyfres o egwyddorion arweiniol a fydd yn cael eu defnyddio i lunio cynnig cymwysterau'r dyfodol, fel a ganlyn.

*Dylai cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed:*

- 1. ymwneud â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru a'i gefnogi;*
- 2. bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg; a*
- 3. cyfrannu at ystod gydlynol a chynhwysol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.*

#### **Qualifications Wales**

Q2 Building, Pencarn Lane  
Imperial Park,  
Newport  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222



[www.qualificationswales.org](http://www.qualificationswales.org)

#### **Cymwysterau Cymru**

Adeilad Q2, Lôn Pencarn  
Parc Imperial,  
Casnewydd  
NP10 8AR  
☎ 01633 373 222

Penderfynasom hefyd y dylai'r prif gymwysterau a astudir gan ddysgwyr 14-16 oed yng Nghymru barhau i gael eu galw'n gymwysterau TGAU, ond gyda nodau, cynnwys ac asesu newydd.

Rydym wedi cyhoeddi ein penderfyniadau yn dilyn ein hymgyngoriad diweddaraf, [Y Dewis Cywir i Gymru](#), ar y prif ystod o bynciau TGAU a chymwysterau a wneir ar gyfer Cymru a fydd yn cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Ochr yn ochr â'r genhedlaeth newydd hon o gymwysterau TGAU yng Nghymru, rydym hefyd yn ystyried pa gymwysterau eraill ddylai fod ar gael fel rhan o'r cynnig cymwysterau cyfan ar gyfer pobl ifanc 14-16 i fodloni'r egwyddorion arweiniol uchod.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio â rhanddeiliaid er mwyn datblygu cynigion ar gyfer yr hyn y dylai'r holl gymwysterau a gynigir ei gynnwys. Byddwn yn rheoli'r newid i'r cynnig cymhwyster newydd drwy'r prosesau dynodi a amlinellir yn ein [polisi dynodi](#).


Rydym yn eich gwahodd i fod yn rhan o'r sgwrs i helpu i ail-lunio'r cymwysterau a gynigir i ddysgwyr 14-16 oed yng Nghymru. Rydym am glywed eich barn chi ar nodweddion cynnig cydlynol a chynhwysol i gefnogi nodau a dibenion y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Gallwch gymryd rhan, yn y lle cyntaf, drwy gymryd rhan mewn cyfarfod ar-lein, awr o hyd. Bydd hwn yn gyfle i ni roi mwy o wybodaeth i chi am y gwaith ac i chi rannu eich barn. Gofynnwn i chi enwebu un unigolyn neu ragor i gynrychioli eich sefydliad yn y trafodaethau hyn. Yn ddelfrydol, rhywun sy'n ymwneud â rôl busnes neu ddatblygu cymwysterau a all fod yn gyswllt allweddol ar gyfer gohebiaeth yn y dyfodol mewn perthynas â'r gwaith hwn.

Cysylltwch â [sadie.tomlins@qualificationswales.org](mailto:sadie.tomlins@qualificationswales.org) i gadarnhau'r canlynol enw cyswllt a chyfeiriad e-bost enwebedig erbyn dydd Llun 1 Tachwedd.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle gwerthfawr i ail-lunio'r cynnig ehangach o gymwysterau i ddysgwyr yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chi a'ch cydweithwyr yn ystod y misoedd nesaf i helpu i wneud i hynny ddigwydd.

Yn gywir



**Emyr George**  
**Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau**